**COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**BWRDD ADFYWIO A DATBLYGU CYNALIADWY'R CABINET**

**DYDD GWENER, 24 IONAWR 2020**

**Cabinet Members:**

Cynghorwyr:: A.Wingrave a/ac E.V.Latham

**Swyddogion yn bresennol:**

S.Brennan, C.Morris, L.Beynon, N.Headon, N.Jones a/ac C.Plowman

**Swyddfa Archwillio Cymru**: R.Taylor (Scrutiny Chairperson) and S.K.Hunt

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

   Cytunwyd y dylid penodi'r Cynghorydd A Wingrave yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **CYNLLUN DATBLYGU LLEOL CASTELL-NEDD PORT TALBOT (CDLL) 2011-2016 - YSTYRIED Y CANLYNOL: ADRODDIAD ADOLYGU'R CDLL DRAFFT; A'R GWEITHDREFNAU CYHOEDDI/YMGYNGHORI I'W GWEITHREDU**

   **Penderfyniadau:**

   Penderfynwyd argymell y canlynol i'r cyngor i'w cymeradwyo:

   1. Cymeradwyo Adroddiad Adolygu'r CDLl drafft fel sail ar gyfer ymgynghoriad, fel a nodwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad a ddosbarthwyd.

   2. Cymeradwyo rhoi'r gweithdrefnau cyhoeddi ac ymgynghori a nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, ar waith.

**Rheswm dros y Penderfyniadau:**

1. I sicrhau y cydymffurfir ag Adran 69
   Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004; Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) (Diwygiad) 2015; a Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Lleol
   Fersiwn 2 (2015).

2. Cymeradwyo'r ymarfer ymgynghori i sicrhau bod yr Adroddiad Adolygu'r CDLl terfynol yn gadarn a bod y casgliadau'n hollol gyfiawn.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar unwaith. Cytunodd Cadeirydd y pwyllgor craffu i'r camau gweithredu hyn. Ni fyddai unrhyw gyfle i gwestiynu'r penderfyniad hwn.

3. **GWERTHUSIAD O ASEDAU**

**Penderfyniadau:**

1. Rhoi awdurdod i'r Rheolwr Eiddo a Phrisiad, Rheolaeth Eiddo a Phrisiad Strategol gymeradwyo Adroddiadau Gwerthuso Asedau'r cyngor;

2. Rhoi awdurdod i'r Prif Reolwr Ystadau, Rheolaeth Eiddo a Phrisiad Strategol gymeradwyo unrhyw Adroddiadau Gwerthuso Asedau'r cyngor yn absenoldeb y Rheolwr Eiddo a Phrisiad.

**Rheswm dros y Penderfyniadau:**

Rhoi awdurdod i'r swyddogion perthnasol gymeradwyo Adroddiadau Gwerthuso Asedau'r Cyngor.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

4. **GŴYL BWYD A DIOD CASTELL-NEDD 2019**

**Penderfyniad:**

Dylid nodi'r adroddiad.

5. **BLAENRAGLEN WAITH 2018-19**

**Penderfyniad:**

Nodi'r Blaenraglen Waith

6. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD**

**PENDERFYNWYD:** Yn unol â Rheoliad 4(3) a (5) Offeryn Statudol 2001 Rhif 2290, gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol a oedd yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a diffinnir ym Mharagraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

7. **SAFLE CYFLOGAETH STRATEGOL GLANNAU'R HARBWR PORT TALBOT - TIR A HAWLIAU YNGHYLCH PERCHNOGAETH CYMDEITHAS PORTHLADDOEDD PRYDAIN**

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo'r amodau a thelerau ar gyfer caffael yr hawddfraint byth bythol sy'n ofynnol ar gyfer Safle Cyflogaeth Strategol Glannau'r Harbwr Port Talbot, fel a nodwyd yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Hwyluso'r mesurau lliniaru llifogydd arfaethedig fel rhan o gynllun Safle Cyflogaeth Strategol Glannau'r Harbwr.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

8. **CAM 2 FFORDD DDOSBARTHU YMYLOL PORT TALBOT - TALU IAWNDAL DAN DDARPARIAETHAU RHAN 1 DEDDF IAWNDAL TIR 1971**

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo talu'r symiau iawndal i'r partïon yr effeithiwyd arnynt mewn perthynas â Cham 2 Ffordd Ddosbarthu Ymylol Port Talbot - talu iawndal o dan ddarpariaethau Rhan 1 Deddf Iawndal Tir 1971, fel a nodwyd yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Talu iawndal o ganlyniad i Gynllun Cam 2 Ffordd Ddosbarthu Ymylol Port Talbot.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

9. **CAM 2 FFORDD DDOSBARTHU YMYLOL PORT TALBOT - TIR A HAWLIAU YNGHYLCH PERCHNOGAETH CYMDEITHAS PORTHLADDOEDD PRYDAIN, PORT TALBOT**

**Penderfyniadau:**

1. Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Eiddo ac Adfywio roi blaendal, fel a nodwyd yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd.

2. Cymeradwyo'r amodau a'r telerau ar gyfer caffael a amlinellwyd ym mharagraffau (i)-(iii) yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd, yn amodol ar unrhyw amrywiadau y mae'n bosib y bydd angen i'r Pennaeth Eiddo ac Adfywio eu gwneud, mewn ymgynghoriad ag Aelod y Cabinet dros Adfywio a Datblygu Cynaliadwy.

3. Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Eiddo ac Adfywio gytuno ar y swm terfynol i'w dalu, mewn ymgynghoriad ag Aelod y Cabinet dros Adfywio a Datblygu Cynaliadwy, fel a nodwyd yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd.

4. Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Eiddo ac Adfywio a Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol gymeradwyo unrhyw ddogfennaeth sy'n angenrheidiol er mwyn hwyluso'r amodau a'r telerau cytunedig a amlinellwyd ym mharagraffau (i)-(iii) yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y Penderfyniadau:**

Talu iawndal i'r partïon yr effeithiwyd arnynt o ganlyniad i gaffael tir a hawliau amrywiol yn bennaf o ganlyniad i Gynllun Cam 2 Ffordd Ddosbarthu Ymylol Port Talbot.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

## 10. ADNEWYDDU PRYDLES Y SAFLEOEDD/STONDINAU YM MARCHNAD DAN DO CASTELL-NEDD, STRYD GREEN, CASTELL-NEDD

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo'r amodau a thelerau ar gyfer adnewyddu'r prydlesi, fel a nodwyd yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Mae angen y tenantiaethau oherwydd daeth y rhai sydd eisoes yn bodoli i ben.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

## 11. CYNNIG ARFAETHEDIG I WAREDU THE LAURELS, HEOL LEWIS, CASTELL-NEDD

Tynnwyd yr eitem hon o'r agenda cyn i'r cyfarfod ddechrau.

## 12. CYNNIG ARFAETHEDIG I WAREDU TIR AR YR HEOL FAWR, BANWEN, CASTELL-NEDD

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo'r cynnig i brynu'r tir, fel a nodwyd yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Caniatáu gwerthu eiddo dros ben ac ennill derbyniad cyfalaf.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

## 13. CANOLBWYNTIO AR Y GYMUNED - RHAGLEN BEILOT MONITRO ANSAWDD AER ARDAL GYFAN

**Penderfyniadau:**

Eithrio'r gofynion cystadleuaeth a nodwyd ym Mharagraff 2 y Rheolau Gweithdrefnau Contractau a rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Eiddo ac Adfywio wneud y canlynol:-

1. Prynu synwyryddion monitro ansawdd aer, fel a nodwyd yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd.
2. Cymeradwyo'r cytundeb cynnal a chadw, fel a nodwyd yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd.

**Rhesymau dros y Penderfyniadau:**

1. Mesur a deall lefelau ansawdd aer yn ardaloedd preswyl Castell-nedd Port Talbot a'r lefelau llygredd a geir o ganlyniad i ddiwydiant, trafnidiaeth ac ynni.
2. Cadarnhau monitro ansawdd aer a darparu data dibynadwy y gellir ei groesgyfeirio yn erbyn setiau data eraill, er enghraifft llif y traffig, i bennu'r cydberthynas â ffactorau eraill megis diwydiant, iechyd lleol, achosion ysgyfeiniol etc.
3. Darparu'r gallu i werthuso effeithiolrwydd lliniariad gwella ansawdd aer a mesurau ymyrryd.
4. Gweithredu fel prosiect arloesol ar gyfer y Dref Garbon Isel Clyfar, gan arddangos y gallu i fonitro ar raddfa eang glyfar (amser go iawn) yn flaengar gan helpu i ddarparu'r syniad o dref garbon isel clyfar.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

## 14. HEN GANOLFAN DDINASYDDION HŶN BRYNSIRIOL, Y CYMER, PORT TALBOT

**Penderfyniadau:**

1. Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Eiddo ac Adfywio gytuno i waredu Canolfan Ddinasyddion Hŷn Brynsiriol, y Cymer, Port Talbot, fel a nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

2. Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Eiddo ac Adfywio gynnig gwerthu'r mangre i'r tendrwr sydd wedi cynnig yr ail bris uchaf, os nad yw'r tendrwr sydd wedi cynnig y pris uchaf yn gallu bodloni'r cyngor bod yr arian ar gael i gwblhau'r pryniant yn gyfreithlon erbyn diwedd mis Chwefror 2020.

3. Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Eiddo ac Adfywio gytuno i unrhyw ddogfennaeth sy'n angenrheidiol, fel a nodwyd yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd.

**Rheswm dros y Penderfyniadau:**

Caniatáu cael gwared ar eiddo dros ben ac ennill derbynneb cyfalaf.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

## 15. GWAREDU RHAN O HEN IARD BURROWS YN OGYSTAL AG ADFER TIR A GEDWIR GAN Y CYNGOR

**Penderfyniadau:**

1. Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Eiddo ac Adfywio dderbyn y cynnig mewn perthynas â hen safle Iard Burrows, fel a nodwyd yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd.

2. Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Eiddo ac Adfywio drafod y prif delerau ar gyfer gwaredu'r tir, fel a nodwyd yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd.

3. Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Eiddo ac Adfywio drafod, cadarnhau a chytuno i'r ddogfennaeth werthiant sy'n angenrheidiol er mwyn gwaredu'r tir, mewn ymgynghoriad â Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, fel a nodwyd yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd.

4. Eithrio Rheol 2 y Rheolau Gweithdrefnau Contractau ar gyfer adfer y tir sydd wedi'i ddangos â llinellau du ar y cynllun yn Atodiad 1 yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd, a rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Eiddo ac Adfywio ddechrau cytundeb, fel a nodwyd ynddo.

**Rheswm dros y Penderfyniadau:**

Caniatáu gwerthu eiddo dros ben ac ennill derbynneb cyfalaf.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

**CADEIRYDD**